**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor y Gronfa Bensiwn

**Cyfarfod aml-leoliad - Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas / *Teams***

**Dydd Mercher, 6 Medi 2023 am 10.00am**

**Yn bresennol:** M B Lewis (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P N Bentu | J P Curtice | M W Locke |

**Aelod Cyfetholedig o Gyngor Castell-nedd Port Talbot)**
Philip Rogers

**Ymgynghorwyr**

| | |
|---|---|
| Phil Pearson | Ymgynghorydd – Hymans Robertson |
| Andre Ranchin | Ymgynghorydd – Hymans Robertson |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Karen Cobb | Rheolwr Buddsoddi a Chyfrifyddu |
| Jeffrey Dong | Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 |
| Carolyn Isaac | Cyfreithiwr |
| Samantha Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Leanne Malough | Archwilio Cymru |
| Ian Guy | Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn Lleol |

**Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Cynghorydd(wyr): P Downing and W G Thomas

---

### 16 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datgelwyd y buddiannau canlynol:

Datganodd y Cynghorwyr P N Bentu, J P Curtice, M B Lewis a P Rogers gysylltiad personol â'r agenda yn ei chyfanrwydd.

Datganodd Ian Guy gysylltiad personol â'r agenda yn ei chyfanrwydd.

Swyddogion:

Datganodd K Cobb, J Dong, C Isaac a S Woon gysylltiad personol â'r agenda yn ei chyfanrwydd.

## 17 Cofnodion

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Gronfa Bensiwn a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2023 fel cofnod cywir.

## 18 Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon Drafft 2022/23

Darparodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog Adran 151 yr adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon drafft ar gyfer Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 2022/23 i'w cymeradwyo.

Cyflwynodd Swyddogion Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon Drafft 2022/23 i Archwilio Cymru i ddechrau ar eu harchwiliad. Mae Archwilio Cymru wedi dechrau ar eu harchwiliad o Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon Drafft y Gronfa Bensiwn 2022/23. Byddai eu hadroddiad SRhA dilynol yn cynnwys barn archwilio a chanfyddiadau archwilio yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn ar ddiwedd yr archwiliad ym mis Tachwedd 2023 ochr yn ochr â'u cynllun archwilio gohiriedig.

Atodwyd Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon Drafft Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 2022/23 yn Atodiad 1.

Gwnaeth y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 sylw ynghylch bod Abertawe yn safle 1 yn nhabl y gynghrair o enillion ar fuddsoddiad am y 3 blynedd hyd at 31/3/23 a'i bod wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer Cronfa CPLlL y Flwyddyn. Diolchwyd i staff yr Adran Gyllid a'u llongyfarch am eu gwaith a'u hymroddiad.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon Drafft Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 2022/23, yn amodol ar archwiliad.

## 19 Adroddiad am doriadau (Er gwybodaeth)

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn darparu manylion unrhyw doriadau a gafwyd yn y cyfnod hwn yn unol â'r polisi Adrodd am Doriadau.

Yn Atodiad A darparwyd manylion y toriadau a gafwyd ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ym mis Gorffennaf 2023. Nodwyd manylion y toriadau a'r camau gweithredu a gymerwyd gan reolwyr.

## 20 Gwahardd y Cyhoedd

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhelliad/argymhellion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitem(au) f/busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 21 Adolygiad o Adroddiadau Sicrwydd ynghylch Rheolaethau Mewnol(Er gwybodaeth)

Rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth' o eitemau adroddadwy a oedd wedi'u cynnwys yn adroddiadau sicrwydd ynghylch rheolaethau mewnol rheolwyr/ceidwaid penodedig cronfeydd.

Gofynnodd y Cadeirydd gwestiwn i'r Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 a ymatebodd yn briodol.

## 22 Partneriaeth Pensiwn Cymru - Y Diweddaraf am Gynnydd

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn am gynnydd a gwaith Partneriaeth Pensiwn Cymru (WPP).

**Penderfynwyd:**

1) Nodi diweddariad chwarterol a blynyddol y CBLl (Atodiad 1 a 2).
2) Nodi diweddariad y gweithredwr *Link Fund Solutions* (Atodiad 3).
3) Cymeradwyo Meini Prawf Gwerthuso a Argymhellir ar gyfer Caffael Gweithredwyr PPC yn Atodiad 4.

## 23 Adroddiad(au) yr Ymgynghorydd Buddsoddi. (Er gwybodaeth)

Cyflwynodd yr Ymgynghorwyr Buddsoddi, Mr Philip Pearson ac Andre Ranchin y buddsoddiad chwarterol 'er gwybodaeth' a’r wybodaeth ddiweddaraf am y farchnad i’r gronfa, cynnydd ymarfer ôl troed carbon a darn addysg ar yr adolygiad modelu rhwymedigaeth asedau ac adolygiad o’r strategaeth fuddsoddi sydd ar ddod.

Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau am gynnwys y cyflwyniad llafar ac atebwyd yn briodol iddynt.

**24 Crynodeb Buddsoddi (Er gwybodaeth)**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn cynnwys y gwerthusiad o asedau a'r perfformiad buddsoddi ar gyfer y chwarter, y flwyddyn a'r 3 blynedd a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2023.

**25 Cyflwyniad(au) Rheolwr y Gronfa:**

Gwnaed cyflwyniad gan Aidan Quinn o Russell Investments.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau am gynnwys y cyflwyniad llafar ac atebwyd yn briodol iddynt.

Nodwyd cynnwys y cyflwyniad a diolchodd y Cadeirydd i Reolwyr y Gronfa am ddod i'r cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.28pm

**Cadeirydd**